# Strategaeth Cynaliadwyedd

Ebrill 2023




WALES&WEST UTILITIES

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Amdanom ni | 4 |
| Ein huchelgais | 5 |
| Ein gweledigaeth ar gyfer system ynni sero net | 6 |
| Beth mae cynaliadwyedd yn ei olygu i ni | 7 |
| Gair am y Strategaeth hon | 8 |
| Cynaliadwyedd ar draws ein blaenoriaethau | 12 |
| Beth nesaf | 35 |
| Geirfa | 37 |
| Atodiadau | 38 |






Graham Edwards,
Prif Swyddog Gweithredol

# Rhagair

Rwy'n falch o gyflwyno Strategaeth Cynaliadwyedd gyntaf Wales and West Utilities. Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod bod cynaliadwyedd yn gysyniad eang a bod ein busnes ar daith tuag at gynaliadwyedd yn ein gweithrediadau ein hunain ac yn y gwasanaethau a ddarparwn i'n cwsmeriaid a'n cymunedau. Mae hefyd yn cydnabod ein bod yn rhwydwaith nwy sy'n chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddarparu ynni diogel, dibynadwy a fforddiadwy – a bod y rhan fwyaf o'r nwy rydyn ni'n ei gludo yn danwydd ffosil. O'r herwydd, mae angen i ni newid yn unol ag ymrwymiadau'r DU gan barhau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau ein rhanddeiliaid.

Nod y ddogfen hon yw nodi'r weledigaeth gyffredinol, hirdymor ar gyfer ein busnes a'r cerrig milltir allweddol rydym yn disgwyl eu cyrraedd i'w chyflawni. Rydym yn cydnabod na allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain: bydd angen i ni weithio gyda phartneriaid ar draws a thu hwnt i'n diwydiant ac ymateb i newidiadau mewn polisi a rheoleiddio. Mae'r Strategaeth wedi cael ei siapio gan fewnbwn rhanddeiliaid a bydd hefyd yn llwyfan ar gyfer ymgysylltu pellach, yn enwedig wrth i ni ddatblygu ein cynllun busnes nesaf. Rydym hefyd yn bwriadu i'r Strategaeth hon esblygu: byddwn yn adrodd arni'n flynyddol ac yn ei haddasu yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau yn y byd ehangach.

Credwn ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni'r cynlluniau hyn a chwarae ein rhan mewn dyfodol cynaliadwy. Rydym wedi strwythuro'r Strategaeth yn unol â'n Huchelgeisiau, Blaenoriaethau a Gwerthoedd presennol, gan adlewyrchu cryfderau ein sefydliad a'n henw da cadarnhaol. Mae'r Strategaeth hon yn dangos ehangder ein hymagwedd at gynaliadwyedd gan ein bod yn:

- Gwneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu ynni cynaliadwy
- Ysgogi gwasanaeth rhagorol
- Mynnu diogelwch bob amser
- Dylunio ein dyfodol
- Darparu gwerth am arian.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid ar draws y diwydiant a thu hwnt i gyflawni ein Strategaeth – ac rydyn ni'n croesawu safbwyntiau ac adborth a fydd yn ein helpu ni ei gwella ymhellach.




# Amdanom ni

Yn y DU, rydym yn berchen ar dros 35,000 cilomedr o bibellau nwy ac yn eu cynnal a'u cadw. Rydym yn cyflenwi nwy i oddeutu 2.5 miliwn o gartrefi a busnesau, gan wasanaethu poblogaeth o 7.5 miliwn o bobl. Mae ein rhwydwaith yn cynnwys ardal sy'n ymestyn o Wrecsam i Redruth, o fynyddoedd Gogledd Cymru i gopaon clogwyni Cernyw.

Fel gweithredwr rhwydwaith dosbarthu nwy rheoledig, nid ydym yn gwerthu nwy; yn lle hynny, rydym yn gweithredu'r rhwydwaith o bibellau sy'n cludo nwy i gartrefi a busnesau ledled Cymru a de-orllewin Lloegr.

Ein cyfrifoldeb ni yw gofalu am y pibellau hynny ac asedau eraill sy'n cadw'r nwy i lifo'n ddiogel ac yn ddibynadwy, ymateb i argyfyngau nwy a chadw'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt yn ddiogel. Mae angen i ni hefyd ofalu am gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus a chwarae ein rhan i ddiogelu a gwella'r amgylchedd yr ydym yn gweithio ynddo.




# Ein huchelgais

**Ein huchelgais yw bod yn ddibynadwy wrth wasanaethu cwsmeriaid a chymunedau'n arbenigol gyda gwasanaethau ynni diogel, dibynadwy a fforddiadwy heddiw, gan fuddsoddi'n ddoeth i greu dyfodol cynaliadwy a gwyrddach.**

Mae'r gwasanaethau a ddarparwn yn hanfodol mewn bywyd bob dydd i'n holl gwsmeriaid. Rydym yn buddsoddi £2 filiwn bob wythnos i wella ein rhwydwaith nwy fel ei fod yn ddiogel a bod nwy ar gael pan fydd ei angen ar bobl, boed hynny ar gyfer gwresogi eu cartref neu redeg eu busnes. Mae gennym hanes cryf o ddarparu safonau uchel o ddiogelwch, dibynadwyedd a gwasanaeth i gwsmeriaid, ac rydym wedi cael sawl achrediad a gwobr am hynny.

Rydym yn cydnabod mai tanwydd ffosil yw'r rhan fwyaf o'r nwy sy'n cael ei gludo i'n cwsmeriaid heddiw a bod ein gweithrediadau'n cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar yr amgylchedd. Rydym yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gyrraedd allyriadau carbon sero net ac yn credu y gall y buddsoddiadau rydym yn eu gwneud i leihau allyriadau a datgarboneiddio gwres, pŵer a thrafnidiaeth helpu i ddarparu system ynni sero net.

# Ein gweledigaeth ar gyfer system ynni sero net

Er mwyn i'r DU gyrraedd allyriadau carbon sero net, mae angen i ni newid bron popeth am y ffordd rydyn ni'n cynhyrchu ac yn defnyddio ynni ar draws ein cymdeithas. Heddiw, mae'r rhan fwyaf o'r ynni a ddefnyddir yn y DU yn dod o ffynonellau ffosil.

**Mae cyflawni sero net yn golygu cyfuniad o un neu ragor o'r canlynol:**

- bydd angen i ynni ddod o ffynonellau glanach eraill fel gwynt, solar, biomethan a hydrogen carbon isel;
- bydd angen lliniaru allyriadau carbon;
- bydd angen i gwsmeriaid newid y technolegau maen nhw'n eu defnyddio.

Yn y pen draw, mae'r newid yn debygol o gynnwys pob un o'r tair elfen hyn ac rydym yn credu y bydd maint rôl nwy yn ein system, yr angen i fodloni gofynion tymhorol a'r angen i leihau amhariad a chost yn golygu y bydd rhwydweithiau dosbarthu nwy yn chwarae rhan bwysig drwy'r cyfnod pontio ac ar gyfer y tymor hir.

Gallwn gyflymu'r newid drwy gynnal rhwydwaith dibynadwy ac effeithlon, parhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau lleihau allyriadau a sicrhau bod ein hasedau'n barod i gario nwyon carbon isel fel hydrogen a chefnogi system ynni gwbl adnewyddadwy.

Fel rhwydwaith dosbarthu nwy, drwy weithio gyda'n cwsmeriaid a'n partneriaid ar ddefnyddio, cynhyrchu a storio ynni glanach, gallwn fynd â'n busnes ar y daith tuag at fod yn sero net, gan barhau i gyflawni'r safonau diogelwch, dibynadwyedd ac effaith gymdeithasol gadarnhaol maen nhw'n eu gwerthfawrogi ac yn eu disgwyl. Ni allwn gyflawni'r weledigaeth hon ar ein pen ein hunain: mae angen i ni weithio gyda chymunedau yn yr ardaloedd rydym yn eu gwasanaethu a gyda phartneriaid ledled y wlad.



# Beth mae cynaliadwyedd yn ei olygu i ni

Ein nod yw gwella cynaliadwyedd cyffredinol ein busnes, gan gydbwyso buddiannau ein rhanddeiliaid ar yr un pryd â diogelu ein hamgylchedd naturiol.

## Sut rydym yn diffinio cynaliadwyedd

Rydym yn deall bod cynaliadwyedd yn ddull deinamig ar lefel systemau lle mae’r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd, cymdeithas a’r economi’n cael eu datblygu i gyflawni nifer o fanteision.

Wrth i’r byd ymateb i hinsawdd sy’n newid a symud oddi wrth danwydd ffosil, bydd newidiadau sylweddol yn effeithio ar ein cydweithwyr, ein cwsmeriaid a’n busnes. Rydym yn rhoi ein rhanddeiliaid wrth galon ein Strategaeth Cynaliadwyedd, gan gydnabod bod gennym ni rôl hanfodol i’w chwarae yn y newid i economi carbon isel, ond mae angen i’n partneriaid gydnabod y newidiadau sy’n ofynnol ar draws y system.

Byddwn yn mynd ymhellach na gwneud ‘dim niwed amgylcheddol’ ac yn hytrach yn ceisio sicrhau enillion net amgylcheddol. Byddwn yn gwella’r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt ac yn cyfrannu at les ein cwsmeriaid. Bydd hyn yn ategu ein hymrwymiad parhaus i gefnogi cwsmeriaid y tu hwnt i’n cyfrifoldebau craidd ac yn adlewyrchu’r rôl ganolog rydym yn ei rhagweld ar gyfer y rhwydwaith nwy mewn system ynni sero net. Rydyn ni eisiau symud tuag at sefyllfa lle mae ystyriaethau cynaliadwyedd wedi’u hintegreiddio mor dda yn ein prosesau busnes fel eu bod yn dod yn Fusnes fel Arfer, ar draws popeth rydyn ni’n ei wneud ac yn ei gyflawni.





# Gair am y Strategaeth hon

Nod ein Strategaeth Cynaliadwyedd yw trosi'r syniad mawr o gynaliadwyedd yn gamau gweithredu rydyn ni'n eu cymryd ar gyfer ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae ein blaenoriaethau busnes yn darparu'r cyd-destun ar gyfer rhoi egwyddor ar waith.

## Pam mae wedi cael ei datblygu

O ystyried yr heriau y mae'r byd yn eu hwynebu, yn enwedig newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio cyflenwad ynni, mae angen safbwynt hirdymor arnom sy'n mynd y tu hwnt i'n cylchoedd cynllunio busnes arferol. Rydym wedi nodi 36 o dargedau sy'n berthnasol i'n pum Blaenoriaeth Busnes. Mae'r rhain yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan sicrhau ein bod yn ystyried cynaliadwyedd yn ei gyfanrwydd.

Mae'r Strategaeth hon yn egluro sut y byddwn yn gwneud ein rhan i warchod a gwella ein hamgylchedd naturiol a diogelu a chyfoethogi ein cymunedau tra'n parhau i fod yn broffidiol ac yn berthnasol. Bydd yn gweithredu fel canllaw cyffredinol i'n cwmni a'n rhanddeiliaid wrth i ni weithredu'r camau sydd eu hangen i gyflawni ein huchelgeisiau a'n targedau. Bydd yn sail i gynlluniau busnes manylach, cynlluniau gweithredu ac adroddiadau, ar yr un pryd â helpu i nodi meysydd ar gyfer buddsoddi a chydweithio pellach.



## Sut rydym wedi'i datblygu

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth hon wedi cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Yn fewnol, mae ein Pwyllgor Datblygu Strategaeth, sy'n adrodd i'n Pwyllgor Bwrdd Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG), yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r busnes, a dyma oedd y grŵp craidd a oedd yn gyfrifol am ddatblygu'r ddogfen hon. Yn allanol, rydym wedi defnyddio ein Panel Dinasyddion a'n Grŵp Ymgysylltu â Chwsmeriaid i gynrychioli safbwyntiau cwsmeriaid a rhanddeiliaid arbenigol wrth ddatblygu'r Strategaeth. Mae'r ddau wedi darparu safbwyntiau amhrisiadwy o'r tu allan i'n busnes, a helpodd i lunio'r Strategaeth.

Nid ydym yn dechrau o'r dechrau: yr oedd cynaliadwyedd eisoes yn ffocws craidd inni. Cafodd Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig eu hintegreiddio yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2021-26 ac maent wedi'u hymgorffori yn ein papurau buddsoddi mewnol ar gyfer penderfyniadau. Gwnaethom hefyd feincnodi'n drylwyr gyfathrebiadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd cwmnïau cyfleustodau domestig a byd-eang a reoleiddir, gan gynnwys strategaethau, cynlluniau gweithredu ac adroddiadau blynyddol. Roedd dau bwrpas i'r ymarfer hwn: yn gyntaf, fe wnaethom ei ddefnyddio i bennu cwmpas ein Strategaeth ac, yn ail, fe wnaethom ei ddefnyddio i herio ein hunain i ymestyn uchelgais ein gwaith.

Mae ein hanes o gyflawni yn rhoi hyder i ni yn ein gallu i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r Strategaeth hon yn eu nodi. Byddwn yn adrodd yn rheolaidd ar ein cynnydd ac yn diwygio'r Strategaeth hon o bryd i'w gilydd, gan ystyried datblygiadau mewn technoleg, cymdeithas, yr economi, a sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

## Sut mae wedi'i strwythuro


Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd wedi cael ei datblygu yn unol â'n Blaenoriaethau a'n Gwerthoedd Busnes, sy'n ein galluogi i gyflawni ein huchelgais o ran cynaliadwyedd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein Strategaeth, wedi'i rhannu'n bedair adran:

## Blaenoriaethau busnes

Mae ein blaenoriaethau busnes yn chwarae rhan ganolog wrth ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth. Maent yn:

- arwain ein penderfyniadau busnes allweddol ac yn cael eu hadlewyrchu yn ein gwaith o ddydd i ddydd
- nodi'r pethau sydd bwysicaf i'n cwsmeriaid a'n cydweithwyr, a
- chreu trywydd fel ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar yr hyn rydyn ni'n mynd i'w wneud.

Felly, rydym wedi strwythuro ein Strategaeth Cynaliadwyedd yn unol â'n pum blaenoriaeth busnes:



### Gwneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu ynni cynaliadwy

Rydym yn gweithio i gyflawni targedau sero net a darparu ynni dibynadwy a gwyrddach ar gyfer gwres, pŵer a thrafnidiaeth.

### Ysgogi gwasanaeth rhagorol

Rydym yn ymdrechu i ragori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid drwy gynnig gwasanaethau teg, cynhwysol o ansawdd da wrth ofalu am y rhai sydd mewn angen.

### Mynnu diogelwch bob amser

Nid ydym byth yn cyfaddawdu ar ddiogelwch, lles ac iechyd ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid ac yn gwella safonau'n barhaus.

### Dylunio ein dyfodol

Rydyn ni'n adeiladu tîm medrus, cydnerth ac amrywiol i weithio gyda rhanddeiliaid a helpu ein cymunedau a'n cymdeithas ffynnu.

### Darparu gwerth am arian

Rydym bob amser yn gwario ac yn buddsoddi arian yn ddoeth, gan weithio'n gallach i gynnig gwasanaethau fforddiadwy sy'n cynnig gwerth am arian.

O dan bob blaenoriaeth, rydym yn nodi:

## SUT Y BWRIADWN EU CYFLAWNI

Mae'r adran hon yn egluro'r camau strategol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni pob blaenoriaeth busnes a sut rydym yn gweithio i'w cyflawni.

## EIN TARGEDAU

O dan bob blaenoriaeth busnes, rydym yn cyflwyno ein targedau a pham eu bod yn bwysig i ni. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r camau penodol rydym yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd, yn amodol ar rwymedigaethau a phenderfyniadau cyfreithiol a rheoleiddiol. Rydym yn cydnabod y gall dewisiadau polisi'r llywodraeth, penderfyniadau rheoleiddio, datblygiadau yn y farchnad a disgwyliadau rhanddeiliaid newid yn y dyfodol. Bydd angen i ni weithio mewn partneriaeth i gyflawni camau gweithredu ar draws y Strategaeth hon ac mewn rhai achosion byddwn yn dibynnu ar ddatblygiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol, fel datblygu cynhyrchu hydrogen carbon isel.


Wrth i ni ddatblygu cynlluniau busnes yn y dyfodol, bydd y targedau hyn yn sail i'r cynlluniau penodol y bwriadwn eu cyflawni o fewn pob cyfnod adolygu prisiau, a byddant yn esblygu ar sail newidiadau allanol a datblygiadau mewnol (gweler 'Beth nesaf' ar dudalen 35). Rydym wedi mapio'r targedau hyn yn erbyn ein Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig blaenoriaethol a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i ddangos sut mae'r targedau hyn yn cyd-fynd â chanllawiau cydnabyddedig.

## ASTUDIAETHAU ACHOS

Rydym yn falch o ddarparu astudiaethau achos, sy'n dod â'n Strategaeth yn fyw ac yn dangos sut rydym yn parhau i gyflawni ein targedau i'r dyfodol.

## TERMINOLEG

Rydym yn ymwybodol efallai na fydd rhai termau yn y ddogfen hon yn gyfarwydd i bob darllenydd. Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 37.



## Mapio ein targedau i ganllawiau allanol

Mae ein blaenoriaethau a'n gwerthoedd yn darparu'r fframwaith i sbarduno ein targedau cynaliadwyedd drwy gydol ein gweithgarwch busnes. Yn yr adroddiad hwn, rydym hefyd wedi mapio'r targedau hyn i ganllawiau allanol i helpu ein rhanddeiliaid i ddeall sut maent yn cyd-fynd â chyd-destun ehangach datblygu cynaliadwy: Deddf Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

## Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig

Mae ein Strategaeth yn cyd-fynd â'r nodau datblygu cynaliadwy blaenoriaethol canlynol:

- 7 AFFORDABLE AND CLEAN ENERGY — Ynni Fforddiadwy a Glân
- 8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH — Gwaith Teilwng a Thwf Economaidd
- 9 INDUSTRY, INNOVATION AND INFRASTRUCTURE — Diwydiant, Arloesi a Seilwaith
- 12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION — Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol
- 13 CLIMATE ACTION — Gweithredu ar Newid yn yr Hinsawdd
- 15 LIFE ON LAND — Bywyd ar y Tir
- 17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS — Gweithio mewn Partneriaethau i Gyflawni'r Nodau

## Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd yn cyd-fynd â'r nodau llesiant canlynol ar gyfer Cymru ac mae'r egwyddorion yn berthnasol ar draws ein rhwydwaith:

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru Iachach
- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Cliciwch ar yr eiconau uchod ar gyfer Nodau Deddf Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i gael rhagor o wybodaeth yn yr atodiadau.

# Cynaliadwyedd ar draws ein blaenoriaethau

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein hasedau'n ddiogel heddiw ac yn addas ar gyfer nwyon carbon isel yn y dyfodol. Rydym yn buddsoddi yn ein rhwydwaith i'w wneud yn fwy cynaliadwy, fel ei fod yn ddiogel heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn ar ben ymateb i argyfyngau nwy, trwsio pibellau a chynnal agwedd wyliadwrus at risgiau seiberddiogelwch a diogelwch ffisegol i'w hatal rhag effeithio ar ddiogelwch a chadernid ein gweithrediadau.

Ochr yn ochr â diogelu'r cyhoedd, rydym yn blaenoriaethu diogelwch, lles ac iechyd ein cydweithwyr a'n contractwyr. Rydym yn datblygu ein gweithdrefnau i ymgorffori arferion gorau ym maes rheoli iechyd a diogelwch ac yn cynnwys ein cydweithwyr yn y gwaith o lunio eu profiad o waith er gwell.

# Gwneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu ynni cynaliadwy

Rydym yn gweithio i gyflawni targedau sero net a darparu ynni dibynadwy a gwyrddach ar gyfer gwres, pŵer a thrafnidiaeth.




Ein huchelgais yw helpu cymunedau a'r amgylchedd i ffynnu drwy ddarparu ynni diogel, dibynadwy, fforddiadwy a chynaliadwy a fydd yn galluogi'r DU i gyrraedd sero net. Credwn y bydd ein rhwydwaith yn chwarae rhan ganolog yn y dyfodol hwn.

Oherwydd y brys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i drawsnewid yr economi gyfan i sero net erbyn 2050. Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad hwn yn llwyr ac yn cydnabod ein cyfrifoldeb a'r rolau sydd gan ein cwmni a'n rhwydwaith seilwaith dosbarthu nwy i'w chwarae yn y trawsnewidiad ynni. Mae ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid yn dweud wrthym yn gyson eu bod am weld cynnydd tuag at gyflenwad ynni cadarn gydag allyriadau isel, a bydd hyn yn bwysig i'w cefnogaeth hirdymor i'n busnes.

Rydym eisoes yn gwneud cynnydd: Mae gan 20 o safleoedd cynhyrchu biomethan sydd wedi'u cysylltu â'n rhwydwaith ddigon o gapasiti i wresogi 150,000 o gartrefi bob blwyddyn, gan ddefnyddio deunyddiau fel slyri anifeiliaid a gwastraff bwyd i gynhyrchu nwy gwyrdd. Gall hydrogen carbon isel ein helpu i fynd ymhellach i gefnogi datgarboneiddio gwresogi domestig, trafnidiaeth, cymwysiadau diwydiannol a chynhyrchu pŵer ar draws yr ardaloedd rydym yn eu gwasanaethu.

Mae ein rhwydwaith yn cynnwys rhai o'r ardaloedd o harddwch naturiol mwyaf eithriadol yn y DU, gan gynnwys arfordir Sir Benfro a pharciau cenedlaethol Eryri, Bannau Brycheiniog, Exmoor a Dartmoor. Rydym yn cydnabod y niwed y mae newid yn yr hinsawdd a gweithgarwch dynol yn ei achosi i'n hamgylchedd. Ein huchelgais yw gwella bioamrywiaeth y tir rydyn ni'n ei reoli, gan rannu yr hyn a ddysgwn wrth i ni weithio tuag at wella ein hamgylchedd naturiol yn sylweddol a'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Sut ydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu ynni cynaliadwy

Byddwn yn gweithio gyda llywodraethau, rheoleiddwyr, cymunedau a busnesau i chwarae ein rhan i helpu i wneud y trawsnewidiad ynni angenrheidiol yn ddiogel ac yn deg. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol a chwsmeriaid i ddatblygu cynlluniau ar gyfer eu systemau ynni, buddsoddiadau wedi'u targedu mewn partneriaethau datgarboneiddio diwydiant gyda'r busnesau hyn mewn 'clystyrau diwydiannol' a chefnogi ymdrechion i helpu cwsmeriaid domestig i ddatgarboneiddio eu systemau gwresogi.

Ar yr un pryd, rydym yn gweithio ar gael trefn ar ein tŷ ein hunain o ran lleihau ein hallyriadau gweithredol a chael gwell dealltwriaeth o'r allyriadau yn ein cadwyn gwerth er mwyn cyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2040. Byddwn yn gwneud hyn yn bennaf drwy fynd i'r afael â'n ffynonellau allyriadau mwyaf, lleihau gollyngiadau methan o'n rhwydwaith drwy ein rhaglen adnewyddu pibellau a mynd ati i ddewis cerbydau allyriadau isel ar gyfer ein gweithrediadau pan fydd opsiynau priodol ac amodau'r farchnad yn caniatáu hynny.

Mae trawsnewid y system ynni gyfan o danwydd ffosil i ddewisiadau amgen carbon isel yn her gymhleth y mae angen mynd i'r afael â hi ar y cyd a thrwy gydweithredu. Byddwn yn adeiladu ar ein rhwydweithiau a'n cysylltiadau presennol ac yn eu hehangu er mwyn sicrhau'r newidiadau rydym ni a'n cymunedau eisiau eu gweld. Mae'r astudiaeth achos isod yn disgrifio un cydweithrediad o'r fath lle gwnaethom gyfrannu at ddatblygu cynllun ar gyfer datgarboneiddio diwydiant trwm yn ne Cymru i gefnogi eu dilysrwydd a'u hyfywedd masnachol i'r dyfodol.

Er mwyn mynd i'r afael â breuder ein hamgylchedd naturiol, yr ydym hefyd yn ceisio gwella bioamrywiaeth lle y gallwn. Ar gyfer y tir rydym yn ei reoli'n uniongyrchol, byddwn yn datblygu ac yn gweithredu cynllun i sicrhau gwelliant mesuradwy mewn bioamrywiaeth erbyn 2035. Byddwn hefyd yn agored i gydweithio â sefydliadau cymunedol eraill ar fioamrywiaeth yn ehangach.

Mae'r cysyniad o 'Economi Gylchol' – lleihau gwastraff drwy ailddefnyddio adnoddau i'r eithaf – yn ennill tir am resymau economaidd ac amgylcheddol cadarn. Byddwn yn lleihau gwastraff o gam dylunio'r prosiect ac yn gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi i leihau ein heffaith amgylcheddol.

# EIN TARGEDAU LLEIHAU ALLYRIADAU

**Gan gydnabod ein rôl yn nhargedau Sero Net cyffredinol y DU, ein huchelgais yw:**

### LLEIHAU'R ALLYRIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG **Â'R NWYON RYDYM YN EU DOSBARTHU**

- Lleihau allyriadau gollyngiadau (97% o'n hôl troed Cwmpas 1 a 2) 10% erbyn 2026 o'i gymharu â 2021/22*
- Bod yn 'barod am sero net' gyda hydrogen 100% mewn ardaloedd sy'n fwy tebygol o drosi erbyn 2035
- Bod yn 'barod am sero net' gyda hydrogen 100% ledled y rhanbarth cyfan erbyn 2040

### LLEIHAU'R ALLYRIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG **Â'N GWEITHREDIADAU EIN HUNAIN**

- Lleihau allyriadau Cwmpas 1 a 2, ac eithrio gollyngiadau, 37.5% erbyn 2035 (wedi'i alinio â gwyddoniaeth)
- Cyflawni allyriadau sero net Cwmpas 1 a 2, ac eithrio gollyngiadau, erbyn 2040
- Cyflawni allyriadau sero net o'r gadwyn gyflenwi (Cwmpas 3 oddi wrth y cwsmer) erbyn 2050

*•Mae allyriadau gollyngiadau yn cael eu hachosi'n bennaf gan fethan, prif gydran nwy naturiol, sy'n gollwng o hen bibellau metelig yn ein rhwydwaith dosbarthu*

Gan ddibynnu ar gynnydd a phenderfyniadau polisi a rheoleiddio, byddwn yn parhau i adolygu'r targedau hyn ac yn rhagweld pennu rhagor o dargedau dros dro yn ein cynlluniau busnes ar gyfer y dyfodol.

## TARGEDAU I arloesi a dewis technolegau mwy gwyrdd

| Byddwn yn... | Pryd... |
|---|---|
| Dewis opsiynau allyriadau isel ac isel iawn ar gyfer ein fflyd o gerbydau lle mae amodau a marchnadoedd yn caniatáu | 2030 |
| Buddsoddi o leiaf £13 miliwn mewn prosiectau arloesi a datgarboneiddio cam cynnar ar draws ein gweithrediadau | 2026 |

**Oherwydd...**

Fel busnes cydnerth, mae angen i ni fod yn barod ar gyfer ffynonellau ynni carbon isel a'u hyrwyddo

**Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio**

- 7 AFFORDABLE AND CLEAN ENERGY
- 9 INDUSTRY, INNOVATION AND INFRASTRUCTURE
- 12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION
- 13 CLIMATE ACTION

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio**

- Cymru Lewyrchus
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

## TARGEDAU I baratoi ein hasedau a'n gweithrediadau ar gyfer nwyon carbon isel

| Byddwn yn... | Pryd... |
|---|---|
| Cyflawni allyriadau gweithredol sero net (Cwmpas 1 a 2) ac allyriadau'r gadwyn gyflenwi (Cwmpas 3 oddi wrth y cwsmer) | Targedau lleihau fesul cam hyd at 2050 |
| Paratoi i dderbyn hyd at 20% o hydrogen cyfunol | 2026 |
| Paratoi ar gyfer hydrogen 100% ledled ardaloedd ein rhwydwaith sydd fwyaf tebygol o drosi erbyn 2035 a ledled y rhwydwaith erbyn 2040 fan bellaf | 2035 a 2040 |

**Oherwydd...**

Rydyn ni'n diogelu at y dyfodol i ddarparu ynni dibynadwy a gwyrddach ar gyfer gwres, pŵer a thrafnidiaeth ar yr un pryd â lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain

- 7 AFFORDABLE AND CLEAN ENERGY
- 12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION
- 13 CLIMATE ACTION

- Cymru Gydnerth
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

## TARGEDAU I weithio gyda'n cwsmeriaid a'u cefnogi yn ystod y cyfnod pontio i sero net

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... |
|---|---|---|
| • Buddsoddi mewn o leiaf dri chlwstwr diwydiannol i gefnogi'r diwydiant i symud i sero net a datblygu cynlluniau cyflwyno ehangach ar gyfer hydrogen | 2026 a pharhaus | Rydyn ni eisiau helpu ein cwsmeriaid mewn cartrefi a busnesau i ffynnu drwy ddarparu ynni dibynadwy, fforddiadwy a chynaliadwyy |
| • Cefnogi ymdrechion datgarboneiddio lleol yn rhagweithiol ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu gan ddefnyddio ein gallu i fodelu systemau cyfan i gefnogi o leiaf 30 o Gynlluniau Ynni Ardal Leol neu weithgarwch tebyg | 2030 | |

**Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio**

8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH; 9 INDUSTRY, INNOVATION AND INFRASTRUCTURE; 13 CLIMATE ACTION; 17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio**

Cymru Lewyrchus; Cymru Gydnerth; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

## TARGEDAU I wella iechyd ein hamgylchedd

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... | |
|---|---|---|---|
| • Cefnogi'r amgylchedd naturiol i ffynnu ledled ein tir ein hunain ac yn ein prosiectau drwy weithio gyda chymunedau a phartneriaid. Byddwn yn cyfeirio ein hadnoddau ein hunain yn ogystal â denu cyllid i sicrhau manteision net bioamrywiaeth | 2035 | Rydyn ni eisiau atal yr argyfwng bioamrywiaeth yn ein rhanbarth a'r DU a helpu i ailadeiladu ecosystemau naturiol | 15 LIFE ON LAND |
| • Anfon dim gwastraff diangen i safleoedd tirlenwi erbyn 2035 a dod yn gwmni diwastraff erbyn 2050 | 2035 a 2050 | Mae rheoli adnoddau'n well yn gwneud synnwyr economaidd ac amgylcheddol cadarn | 12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION |

Cymru Gydnerth; Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang



## **ASTUDIAETH ACHOS –** CEFNOGI DATGARBONEIDDIO RHANBARTHOL DRWY GLWSTWR DIWYDIANNOL DE CYMRU

Rydym yn falch o fod yn rhan o Glwstwr Diwydiannol De Cymru (SWIC), cydweithrediad ag oddeutu 30 o sefydliadau mawr sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni sero net ar gyfer yr ardal ddiwydiannol sy'n gyfrifol am yr ôl troed carbon ail-uchaf o holl glystyrau'r DU. Fel rhan o SWIC, mae Wales and West Utilities yn datblygu cynlluniau ar gyfer piblinell hydrogen fawr yn ne Cymru (HyLine Cymru) i gyflymu cynlluniau datgarboneiddio ar gyfer cwsmeriaid diwydiant a nwy yn y rhanbarth.

Nod Hyline Cymru yw cefnogi cynhyrchu hydrogen ar raddfa fasnachol yn Sir Benfro ac yn y Môr Celtaidd, gan ddarparu cyswllt â chwsmeriaid diwydiannol sy'n defnyddio llawer o ynni yn ardal Bae Abertawe i hwyluso newid eu prosesau i hydrogen erbyn 2030. Mae hefyd yn darparu opsiynau ar gyfer trosi ein rhwydwaith dosbarthu ehangach yn ne Cymru, gan gynnwys trosi gwresogi cartrefi i hydrogen o bosibl, gan amharu cyn lleied â phosibl ar gartrefi a chymunedau.




## Ysgogi gwasanaeth rhagorol


Rydym yn ymdrechu i ragori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid drwy gynnig gwasanaethau teg, cynhwysol o ansawdd da wrth ofalu am y rhai sydd mewn angen.

Byddwn yn parhau i wneud yn siŵr bod ein cydweithwyr sy'n delio â chwsmeriaid yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r systemau sydd eu hangen arnynt i ddarparu eu gwasanaeth rhagorol.

Byddwn yn chwarae ein rhan i gefnogi ein cwsmeriaid cartref a busnes i ddeall eu dewisiadau sy'n ymwneud â gwresogi carbon isel ac atebion ynni.

Ein nod nid yn unig yw cludo ynni i'n cwsmeriaid, ond rydym hefyd yn barod i gynrychioli buddiannau ein cymunedau mewn fforymau diwydiant a rheoleiddio. Byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i sicrhau bod eu hanghenion a'u pryderon yn cael eu clywed gan y rheini sy'n gwneud y penderfyniadau a fydd yn siapio'r trawsnewidiad ynni.

Mae ein huchelgais i ddarparu gwasanaeth ynni diogel, dibynadwy a fforddiadwy yn ymestyn i bawb yn ein rhwydwaith. I'r perwyl hwnnw, rydym yn darparu cymorth ychwanegol i gael mynediad at ein gwasanaethau i gwsmeriaid sydd ei angen fwyaf oherwydd eu hamgylchiadau a'u nodweddion personol.




## Sut rydym yn ysgogi gwasanaeth rhagorol

Rydym yn ymgysylltu'n barhaus â chwsmeriaid a chymunedau i ddeall eu barn, eu hanghenion, a'u disgwyliadau. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy'r sgyrsiau rydyn ni'n eu cael â chwsmeriaid bob dydd; ein hymgysylltiad ag awdurdodau lleol a sefydliadau rhanbarthol eraill; a grwpiau ffurfiol fel ein Paneli Dinasyddion a'n Grwpiau Ymgysylltu â Chwsmeriaid. Drwy wrando ar ein cwsmeriaid byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn darparu gwasanaeth rhagorol a bydd hynny yn ein helpu i ganfod ffyrdd o ddatblygu ein prosesau, ein hyfforddiant a'n gwasanaethau'n barhaus.

Byddwn yno i'n cwsmeriaid drwy'r newid i nwyon carbon isel ar draws ein rhwydwaith. Un ffordd o wneud hyn yw sefydlu timau cymorth i gwsmeriaid rhanbarthol a fydd yn gyfrifol am sicrhau nad oes neb yn y gymuned yn cael ei adael ar ôl yn y trawsnewidiad ynni. Bydd hyn yn ein galluogi i gofleidio amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well, gan gynnwys yr iaith Gymraeg.

Byddwn yn dylanwadu ar ddiogelu cwsmeriaid, yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac yn sicrhau bod gan fusnesau lais. Bydd y cyfleoedd sydd gennym i gysylltu â chwsmeriaid hefyd yn cael eu defnyddio i ddarparu cymorth ychwanegol ar fforddiadwyedd, effeithlonrwydd ynni a diogelwch nwy, naill ai'n uniongyrchol neu drwy rwydwaith o bartneriaethau. Mae Llinell Gymorth Ynni Cyngor ar Bopeth a Gwasanaeth Ynni Anableddau SCOPE, yr ydym yn gweithio arno ar y cyd â rhwydweithiau nwy eraill, yn dangos sut yr ydym wedi defnyddio ein safle mewn cymdeithas drwy ein partneriaethau. Ar ben hynny, rydym yn gweithio ar y prosiect Cartrefi Iach Pobl Iach, sy'n cael ei arddangos isod yn yr astudiaeth achos.

Byddwn yn cyhoeddi data ar ein gwasanaeth i gwsmeriaid, ein perfformiad a'r cymorth ychwanegol a ddarperir i gartrefi a busnesau. Bydd ein perfformiad o ran gwasanaeth i gwsmeriaid yn cael ei ddilysu'n allanol drwy arolygon annibynnol, aelodaeth a meincnodi'r Sefydliad Gwasanaeth i Gwsmeriaid a byddwn yn dangos ein darpariaeth gwasanaeth cynhwysol drwy safon ISO22458 ar gyfer Gwasanaethau Cynhwysol a Bregusrwydd Defnyddwyr a Nod Barcud cysylltiedig.

## TARGEDAU I ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... |
|---|---|---|
| • Rhoi cwsmeriaid a chymunedau wrth galon popeth a wnawn, gan ddarparu gwasanaethau cynhwysol i bawb | Parhaus | Rydyn ni eisiau parhau i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid a'n cymunedau wrth i'w hanghenion esblygu a newid |
| • Cefnogi cwsmeriaid drwy weithio gyda phartneriaid a gwella sgiliau peirianwyr i wneud gwaith atgyweirio sylfaenol ar bibellau a boeleri, yn ogystal â chynnig gwasanaethau ychwanegol | 2023 – 2026 ac yn barhaus | Bydd hyn yn ein galluogi i gadw cwsmeriaid yn ddiogel ac yn gynnes yn eu cartrefi |

**Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio**

- 7 AFFORDABLE AND CLEAN ENERGY
- 12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION
- 17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio**

- Cymru Lewyrchus
- Cymru Gydnerth
- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

## TARGEDAU I gefnogi cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... |
|---|---|---|
| • Defnyddio data i ganfod a thargedu cymorth i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus ar draws ein cymunedau | 2023 yna'n barhaus | Rydym yn canolbwyntio ar leihau effaith tarfu ar y cyflenwad, helpu i wneud ynni'n fforddiadwy, cefnogi cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus a chodi ymwybyddiaeth o garbon monocsid er mwyn gofalu'n well am y rheini sydd fwyaf mewn angen |
| • Manteisio i'r eithaf ar werth cymdeithasol ychwanegol y cymorth a ddarparwn yn uwch na'r gofynion disgwyliedig ac adrodd ar hynny | 2026 | |

- 7 AFFORDABLE AND CLEAN ENERGY
- 8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH
- 17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS

- Cymru Gydnerth
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru Iachach
- Cymru o Gymunedau Cydlynol

# TARGEDAU I gefnogi ein cymunedau wrth iddynt newid i ynni carbon isel

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... |
|---|---|---|
| Datblygu ein cydweithwyr a gwybodaeth ar gyfer cwsmeriaid i'w grymuso a'u cefnogi i ddod yn rhan o'r broses trawsnewid ynni yn y DU | 2025 | Rydyn ni eisiau i'n cwsmeriaid deimlo bod gwybodaeth a chefnogaeth gyfartal i bawb drwy'r trawsnewidiad ynni 'teg' |
| Creu mwy o dimau cymorth i gwsmeriaid lleol, sy'n cynrychioli cymunedau, er mwyn trawsnewid y system ynni ar gyfer sero net | 2026 | Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr nad oes neb yn cael ei adael ar ôl mewn cynlluniau cyflwyno cychwynnol (erbyn 2030) a phontio tymor hir (hyd at 2050) |

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio




Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio

- Cymru Lewyrchus
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang
- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

## ASTUDIAETH ACHOS – FFORDDIADWYEDD YNNI A MYNEDIAD

Yn 2022/23, mae nifer y bobl yn ein cymunedau sydd mewn perygl o dlodi tanwydd wedi dyblu o ganlyniad i brisiau tanwydd cynyddol a'r argyfwng costau byw. Mae'r prosiect Cartrefi Iach, Pobl Iach, sy'n cael ei redeg gan Cymru Gynnes, National Energy Action (NEA) a Systemau Ynni Defnyddwyr (CES), yn cefnogi hyd at 1,000 o gartrefi sy'n agored iawn i niwed bob blwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd, o 2021 i 2026, ar draws ein rhwydwaith.

Mae partneriaid y prosiect yn asesu ac yn adolygu sefyllfa bresennol unigolyn ac yn cytuno ar gynllun gweithredu. Mae timau Cymru Gynnes, NEA a CES yn helpu cwsmeriaid gyda'r gwaith papur a'r trafodaethau angenrheidiol gydag amrywiol asiantaethau i gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys:

- Budd-daliadau heb eu hawlio
- Lleihau dyledion a biliau ynni
- Cael gafael ar gyllid mesurau ynni
- Newid ymddygiad unigolion o ran defnyddio ynni
- Cael gafael ar grantiau addasu cartrefi
- Ymwybyddiaeth o'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth
- Darparu ymwybyddiaeth o garbon monocsid a larymau am ddim.

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2023, roedd y prosiect wedi helpu 1,962 o gartrefi i arbed £1.1 miliwn, sef £562 i bob aelwyd ar gyfartaledd.

# Mynnu diogelwch bob amser

Nid ydym byth yn cyfaddawdu ar ddiogelwch, lles ac iechyd ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid ac yn gwella safonau'n barhaus.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r cyhoedd yn ddiogel ac yn gynnes am genedlaethau i ddod, rydym yn buddsoddi £2 filiwn yr wythnos i gynnal ac uwchraddio'r 35,000 cilomedr o biblinellau a'r 20,000 o orsafoedd rheoli gwasgedd nwy y mae nwy yn llifo drwyddynt i'n 7.5 miliwn o gwsmeriaid. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o ollyngiadau nwy, yn gwella diogelwch, yn lleihau allyriadau methan ac yn paratoi ein rhwydwaith i gludo nwyon carbon isel.

Mae cydnerthedd rhwydwaith, yn wyneb newid yn yr hinsawdd, yn ystyriaeth hollbwysig i ni ac i'n rhanddeiliaid. Byddwn yn gwerthuso sut bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ein hasedau a'n gweithrediadau drwy gynnal asesiadau risg i gefnogi ein gwaith cynllunio tymor hir.

Er mwyn cynnal a gwella ein safonau diogelwch uchel, byddwn yn parhau i gynnig ein hunain er mwyn i'n systemau rheoli iechyd a diogelwch gael eu dilysu'n annibynnol. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i ymdrechu i sicrhau diwylliant cwmni lle mae pob cydweithiwr yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei gefnogi, yn cael ei glywed ac yn cael ei rymuso i weithredu lle gallai diogelwch gael ei gyfaddawdu. Rydym yn cymryd camau i gryfhau hyn ymhellach yn ein ffyrdd o weithio drwy hyfforddi cydweithwyr ar ein gwerthoedd ac arfogi ein harweinwyr a'n rheolwyr â'r sgiliau i gefnogi cydweithwyr. Byddwn yn ceisio atal materion ynghylch diogelwch, lles ac iechyd rhag gwaethygu drwy ein diwylliant cadarnhaol, swyddogaethau adnoddau dynol, rhwydweithiau cymheiriaid ac ymgysylltu â chydweithwyr a chynrychiolwyr undebau llafur / diogelwch.



# TARGEDAU I gynnal diogelwch ein hasedau i gadw cwsmeriaid a chymunedau'n ddiogel

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... |
|---|---|---|
| • Uwchraddio ein hasedau, ein systemau a'n data yn rhagweithiol ar gyfer y dyfodol a diogelu rhag risgiau seiberddiogelwch a risgiau ffisegol | **Parhaus** | Rydyn ni eisiau codi'r safon ynghylch diogelwch ein rhwydwaith a gwella ei gydnerthedd i wneud yn siŵr bod ein hasedau'n ddiogel heddiw ac yn addas ar gyfer nwyon carbon isel yn y dyfodol |
| • Parhau i weithredu gwasanaeth brys 24/7 365 diwrnod y flwyddyn, gan ymateb i bob galwad gan y cyhoedd o fewn awr ar gyfer sefyllfa nad yw'n cael ei rheoli, a dwy awr ar gyfer sefyllfa gaiff ei rheoli | **Parhaus** | Dydyn ni byth yn cyfaddawdu ar ddiogelwch ein cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'r cyhoedd |
| • Disodli prif bibelli a gwasanaethau metelig sy'n heneiddio â deunyddiau pibellau modern sy'n fwy diogel ac yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd | **Parhaus** | Rydym am wella diogelwch, lleihau costau gweithredu a lleihau ein hallyriadau methan |
| • Cynnal gweithlu ymateb brys hynod fedrus a phroffesiynol a sicrhau bod cydweithwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ar gyfer trawsnewid y system ynni | **Parhaus** | Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y gwasanaeth yn dal yn addas i'r diben wrth i ranbarthau yn ein rhwydwaith drawsnewid i hydrogen |

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio

9 INDUSTRY, INNOVATION AND INFRASTRUCTURE

12 RESPONSIBLE CONSUMPTION AND PRODUCTION

Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio

Cymru o Gymunedau Cydlynol

## TARGEDAU I hyrwyddo diogelwch ein gweithlu

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... | |
|---|---|---|---|
| Cynnwys ffactorau dynol a dadansoddi gwallau'n effeithiol yn ein dull o reoli risg a datblygu prosesau | **2023 yna'n barhaus** | Rydym yn canolbwyntio ar ganfod a lleihau risg fel ein bod yn gwella safonau diogelwch cydweithwyr a chwsmeriaid yn barhaus | Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio: 8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH; 9 INDUSTRY, INNOVATION AND INFRASTRUCTURE. Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio: Cymru Lewyrchus |
| Adolygu a diweddaru ein proffil risg (cofrestrau) yn gyson er mwyn i ni adnabod risgiau newydd a chadw ffocws ar y peryglon hynny sydd fwyaf tebygol o achosi niwed i fywyd neu eiddo | **Bob chwarter** | | |
| Parhau i ddarparu rhaglen hyfforddi orfodol gynhwysfawr yn seiliedig ar fatricsau cymhwysedd hanfodol, gan gynnwys trawsnewid y system ynni i nwyon fel hydrogen | **Parhaus** | | |

## TARGEDAU I ofalu am les ac iechyd ein cydweithwyr

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... | |
|---|---|---|---|
| Gwneud yn siŵr bod ein diwylliant yn ddiogel, yn gefnogol, yn ddifyr ac yn ysgogol ac yn galluogi ymdeimlad o berthyn, datblygiad a pherfformiad | **Parhaus** | Mae lles ac iechyd cydweithwyr yn sail i'n llwyddiant fel busnes | 8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH; Cymru Lewyrchus; Cymru Iachach |




## **ASTUDIAETH ACHOS –** PROSIECTAU DISODLI PIBELLAU AR WAITH

Rydym yn gwneud gwaith i ddisodli hen bibellau metel â phibellau plastig modern, sy'n helpu i leihau faint o nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru wrth i ni gludo nwy i gwsmeriaid yng Nghymru a de-orllewin Lloegr. Rydyn ni wedi bod yn gweithio ar y rhaglen hon ers 2002, gan fuddsoddi tua £100 miliwn i adnewyddu 450 cilomedr o bibellau bob blwyddyn – sy'n cyfateb i osod pibell o'n pencadlys yng Nghasnewydd i Lundain ac yn ôl eto.

Mae'r prosiectau hyn yn lleihau'n sylweddol y tebygolrwydd y bydd defnyddwyr yn yr ardal yn profi gollyngiadau nwy yn y dyfodol, yn osgoi anhwylustod gwaith atgyweirio heb ei gynllunio ac yn lleihau faint o fethan sy'n dianc o bibellau metelig hŷn. Gan fod methan yn nwy tŷ gwydr cryf ac yn brif gyfansoddyn nwy naturiol, lleihau gollyngiadau o'n piblinellau yw'r brif ffordd y gallwn ni, fel rhwydwaith dosbarthu nwy, leihau potensial cynhesu byd-eang ein gweithrediadau yn y tymor agos.

Er bod y rhaglen yn hanfodol ar gyfer diogelwch, rydym yn cydnabod yr effaith y gall y gwaith ei chael ar gymunedau, ac yn gweithio'n agos gyda nhw i liniaru'r effeithiau hyn lle bynnag y bo modd. Yn achos rhaglen waith tri mis i adnewyddu pibellau nwy yn Totnes, Dyfnaint, cynhaliwyd sesiynau galw heibio a bu i ni siarad â busnesau a allai gael eu heffeithio gan y gwaith. Ystyriwyd eu safbwyntiau wrth ddylunio'r llwybr gwyro o amgylch y safle gwaith. Ar sail yr ymgysylltu hwn, fe wnaethom benderfynu mai'r ffordd orau o fynd ati i gyflawni'r prosiect oedd rhannu'r rhaglen waith yn ddau gam, un ym mis Ionawr 2023 a'r llall ym mis Ionawr 2024.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda chynghorau ar draws ein rhanbarth er mwyn sicrhau bod y gwaith sydd ei angen i uwchraddio'r rhwydwaith nwy yn cael ei wneud gan amharu cyn lleied â phosibl ar gymunedau. Mae ein tîm gwasanaeth i gwsmeriaid a'n cydweithwyr rheng flaen wedi'u hyfforddi'n llawn i ymgysylltu â'r cyhoedd ac egluro iddynt beth yw'r broses o amnewid y pibellau yn ystod y gwaith uwchraddio. Rydyn ni'n gweithio gyda'n cymunedau i ddeall y manteision y bydd uwchraddio'n eu creu o ran diogelwch a diogeledd eu cyflenwad ynni, ac rydyn ni'n helpu i liniaru unrhyw effeithiau tymor byr wrth i'r gwaith gael ei wneud.

# Dylunio ein dyfodol

Rydyn ni'n adeiladu tîm medrus, cydnerth ac amrywiol i weithio gyda rhanddeiliaid a helpu ein cymunedau a'n cymdeithas ffynnu.

Ein huchelgais yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid drwy greu amgylchedd gwaith cynhwysol lle gall cydweithwyr fod yn nhw eu hunain gan wybod y byddan nhw'n cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial.

Mae paratoi ein rhwydwaith ar gyfer nwyon carbon isel yn golygu mwy na gwneud yn siŵr bod ein pibellau'n gallu delio â nhw. Mae angen i ni nodi a datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r arbenigedd sy'n ofynnol yn ein tîm, meithrin cydweithrediadau cefnogol â rhanddeiliaid a pharatoi ein cwsmeriaid ar gyfer y newidiadau i'w cyflenwad ynni. Byddwn yn ceisio manteisio ar bartneriaethau newydd a phresennol gyda chyfleustodau eraill, y trydydd sector a'r sector addysg i wella ansawdd a gwerth y cymorth a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cwsmeriaid yn barhaus.

Rydyn ni eisiau adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu yn well a byddwn yn mynd ati i feithrin amrywiaeth ar draws ein sefydliad drwy weithredu ein Strategaeth Amrywiaeth. Byddwn mor gynhwysol â phosibl, o ran cefnogi mynediad at waith teilwng i bawb a'r cyfleoedd sydd gan ein cydweithwyr i ddatblygu eu gyrfa.





## Sut rydym yn cynllunio ein dyfodol

Byddwn yn esblygu diwylliant ein gweithlu i fod yn fwy amrywiol ac i ganolbwyntio mwy ar y cwsmer er mwyn i ni adlewyrchu ein cymunedau'n well. Mae hyn yn cynnwys ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf drwy raglenni allgymorth mewn ysgolion a cholegau i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gyrfa, yn enwedig yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig sy'n rhan o'n rhwydwaith. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi pobl ifanc i gael yr hyfforddiant a'r profiad sydd eu hangen arnynt i lansio eu gyrfaoedd drwy ein prentisiaethau.

Rydym yn cydnabod mai ein pobl yw ein hasedau mwyaf gwerthfawr ac, o'r herwydd, byddwn yn datblygu diwylliant cefnogol, diddorol a llawn cymhelliant sy'n galluogi ein pobl i berthyn, datblygu a pherfformio. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr a'u grymuso i wella a siapio eu profiad. Mae hyn yn cynnwys creu cymunedau gweithwyr fel y Rhwydwaith Cynhwysiant Merched, sydd wedi'i broffilio yn yr astudiaeth achos isod. Byddwn hefyd yn darparu cyfleoedd fel ein rhaglen hyfforddi perfformiad uchel i gydweithwyr i ddiogelu eu sgiliau at y dyfodol a gwneud eu gorau.

Byddwn yn dangos parch at ein gweithlu drwy ddarparu cyflog teilwng iddynt, fel sy'n cael ei danlinellu gan ein hachrediad fel Cyflogwr Cyflog Byw, gyda chyflogau'n cael eu meincnodi'n rheolaidd yn fewnol ac yn allanol fel rhan o broses adolygu gynhwysfawr. Byddwn hefyd yn parhau i wella tryloywder cyflog, gan adeiladu ar lwyddiant dull matrics cymhwysedd a ddatblygwyd i gefnogi datblygiad gyrfa ein cydweithwyr Gweithrediadau.

Rydym yn bwriadu cydweithio'n gyflym ar draws y diwydiant a'r llywodraeth i fynd i'r afael â'r heriau ar lefel y system sy'n ofynnol i ddangos rôl ein rhwydwaith nwy mewn cymdeithas sero net. Byddwn yn defnyddio ein Siarter Cadwyn Gyflenwi i roi manylion ein safonau gofynnol ar yr un pryd â hyrwyddo ein dyheadau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gwella ein gwelededd o ran arferion cynaliadwy ein cadwyn gyflenwi drwy broses fapio. Bydd y data a gesglir yn ystod yr ymarfer hwn yn sail i gynllun gweithredu sydd â'r nod o'n helpu i gyflawni ein hamcanion cynaliadwyedd ar y cyd.

# TARGEDAU I adeiladu tîm medrus, cydnerth sy'n barod ar gyfer hydrogen

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... |
|---|---|---|
| Cynnal ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl a chyflawni ail-achrediad yn 2024 | **2024 a 2027** | Bydd mwy o bobl sy'n chwilio am waith yn ystyried Wales and West Utilities fel cyflogwr o ddewis |
| Gwneud yn siŵr bod cydweithwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu ein rhwydwaith yn ddiogel | **Parhaus** | Bydd hyn yn gwneud ein rhwydwaith yn fwy diogel a chydnerth drwy weithredu, cynnal a chadw ac atgyweirio'n effeithiol |
| Creu cynllun cadarn ar gyfer sgiliau hydrogen ac adnoddau talent ar gyfer y sector drwy gydweithio â'r rhwydweithiau dosbarthu nwy eraill a'r cyngor sgiliau ar gyfer ein sector | **2026** | Mae angen tîm medrus a chydnerth arnom i gyflawni ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau |

**Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio**


8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH

17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio**

Cymru Lewyrchus

Cymru Gydnerth



## TARGEDAU I wella amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ein tîm

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... |
|---|---|---|
| Cyrraedd Safon y Cyflogwyr Cynhwysol yn 2025 | 2025 | Bydd tîm mwy amrywiol yn ein helpu i gefnogi'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt yn well |
| Datblygu cynllun i wella cynhwysiant drwy gefnogi llwybrau at waith boddhaus | 2023 yna'n barhaus | |
| Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf drwy addysgu ein cydweithwyr a gweithio gydag ysgolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig ein rhwydwaith i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch nwy a chyfleoedd gyrfa | Parhaus | |

**Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio**

8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio**

- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru sy'n Fwy Cyfartal
- Cymru Iachach
- Cymru Lewyrchus

## TARGEDAU I ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi a phartneriaid yn y diwydiant ar gynaliadwyedd

| Byddwn yn... | Pryd... | Oherwydd... | Nodau |
|---|---|---|---|
| Mapio ymwybyddiaeth cyflenwyr o bynciau cynaliadwyedd | 2023 | Bydd hyn yn targedu ein sgyrsiau a'n gweithgareddau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yn well gyda'n rhanddeiliaid yn y gadwyn gyflenwi | 9 INDUSTRY, INNOVATION AND INFRASTRUCTURE; 17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS |
| Gweithio gyda phartneriaid ehangach yn y diwydiant ynni i hyrwyddo dealltwriaeth a dewis defnyddwyr o ran atebion gwresogi carbon isel | 2026 | Gyda'n gilydd, gallwn helpu ein cymunedau a'n cymdeithas i ffynnu | 13 CLIMATE ACTION; 17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS |

- Cymru Gydnerth
- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru Lewyrchus
- Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

## **ASTUDIAETH ACHOS –** RHWYDWAITH CYNHWYSIANT MENYWOD: MENTER DAN ARWEINIAD CYDWEITHWYR

Mae'r Rhwydwaith Cynhwysiant Menywod yn grŵp sy'n cael ei gydlynu gan ac ar gyfer cydweithwyr gyda chefnogaeth ac adnoddau a ddarperir gan Wales and West Utilities. Cafodd ei lansio yn 2022, ac mae wedi arwain at ddatblygu cymuned weithredol sydd, gyda'i gilydd, yn ymwneud â gwella cynhwysiant menywod yn ein sefydliad.

Arweiniodd y grŵp fudiad i ddod o hyd i gyfarpar diogelu personol sydd wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer menywod. Roedd hefyd yn allweddol o ran arloesi'r defnydd o larymau diogelwch personol ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun ac, yn fwyaf diweddar, mae wedi bod yn gweithio ar godi ymwybyddiaeth o'r menopos yn y gweithle a datblygu canllawiau sydd wedi cael eu hymgorffori mewn polisi cwmni i gefnogi normaleiddio'r pwnc.

Mae llwyddiant y Rhwydwaith Cynhwysiant Merched wedi creu momentwm tuag at sefydlu grwpiau cynhwysiant eraill y bydd cydweithwyr yn eu gwerthfawrogi yn y dyfodol.



# Darparu gwerth am arian

Rydym bob amser yn gwario ac yn buddsoddi arian yn ddoeth, gan weithio'n gallach i gynnig gwasanaethau fforddiadwy sy'n cynnig gwerth am arian.

Wrth galon popeth a wnawn mae'r angen i fuddsoddi a chyflawni'r safonau uchel o ddiogelwch a pherfformiad y mae ein cwsmeriaid yn eu disgwyl. Mae gennym weithdrefnau cadarn ar gyfer rheoli buddsoddiadau a chaffael i sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu gwneud yn effeithlon a'u bod yn unol â'r fframweithiau y mae Ofgem yn eu gosod fel ein rheoleiddiwr.

Byddwn yn parhau i edrych ar gyfleoedd i gynnal ein busnes a'n gwasanaeth mor effeithlon â phosibl. Er enghraifft, mae defnyddio ein gweithlu presennol i gyflawni gwaith i drydydd partïon y tu mewn a'r tu allan i'n rhwydwaith ein hunain (a elwir yn incwm heb ei reoleiddio) yn caniatáu i ni leihau'r costau rydyn ni'n eu trosglwyddo i'n cwsmeriaid ar eu biliau nwy. Byddwn yn ceisio defnyddio technolegau, technegau a gwybodaeth newydd i sbarduno gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn yn ein sylfaen gostau.

## Sut ydym yn darparu gwerth am arian

Byddwn yn parhau â rhaglen ymgysylltu gadarn gyda'n rhanddeiliaid a'n cwsmeriaid yn y diwydiant. Byddwn yn dysgu o arferion gorau'r diwydiant ac yn rhannu ein datblygiadau arloesol ein hunain â'n cymheiriaid yn y rhwydwaith dosbarthu nwy. Byddwn bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o wella gwerth y gwasanaeth a ddarparwn a sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid er mwyn gwella gwerth cymdeithasol ein gweithgarwch. Mae gennym bolisïau caffael cryf sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Cyfleustodau i sicrhau gwerth am arian gwariant allanol drwy brofion marchnad cadarn.

Byddwn yn ceisio cynyddu ein cynigion busnes nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd wrth geisio datblygu ffrydiau refeniw newydd. Mae ein hymgyrch i uwchsgilio ein tîm yn cefnogi'r ymdrech hon drwy gynyddu ein cronfa o arbenigedd a sgiliau y gellir eu marchnata. Byddwn hefyd yn ystyried cyfleoedd cynhyrchu refeniw a ddaw yn sgil y trawsnewidiad ynni, fel cynhyrchu a storio nwy carbon isel.

Byddwn yn ceisio mabwysiadu targedau mwy soffistigedig a monitro ein defnydd o adnoddau i wella canlyniadau amgylcheddol, dileu gwastraff lle bynnag y bo modd a lleihau costau.

## TARGEDAU I gadw buddiannau cwsmeriaid wrth galon pob penderfyniad buddsoddi

### Byddwn yn...

- Parhau i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill i ddeall eu hanghenion
- Parhau i werthuso pob penderfyniad buddsoddi yn drylwyr, gan ystyried blaenoriaethau ein rhanddeiliaid

### Pryd...

**Parhaus**

**Parhaus**

### Oherwydd...

Rydym yn ymdrechu i ddiwallu anghenion yr holl randdeiliaid a gwneud y buddsoddiadau sydd eu hangen i gefnogi cwsmeriaid heddiw ac yfory mor effeithlon â phosibl

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio

7 AFFORDABLE AND CLEAN ENERGY

8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH

Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio

Cymru Lewyrchus

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Cymru o Gymunedau Cydlynol

## TARGEDAU I leihau'r costau a drosglwyddir i'n cwsmeriaid

### Byddwn yn...

- Parhau i gynyddu ein hincwm nad yw'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd (lleihau biliau defnyddwyr) a datblygu ein hunain fel cyflenwr o ddewis o ansawdd uchel
- Nodi a, lle bo hynny'n addas, buddsoddi mewn cyfleoedd sy'n cynhyrchu ffrydiau refeniw ychwanegol yn y dyfodol, gan gynnwys o'n hasedau tir a nwy

### Pryd...

**Parhaus**

**Parhaus**

### Oherwydd...

Rydyn ni eisiau gweithio'n ddoethach i gynnig gwasanaethau fforddiadwy sy'n cynnig gwerth am arian

7 AFFORDABLE AND CLEAN ENERGY

8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH

Cymru Lewyrchus

Cymru Gydnerth

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

# TARGEDAU I gysoni ein strwythur cyfalaf â'n hamcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG)

## Byddwn yn...

- **Parhau i werthuso'r potensial ar gyfer alinio ein strwythur cyfalaf ymhellach â'n hamcanion ESG**

## Pryd...

**Parhaus**

## Oherwydd...

**Rydyn ni eisiau rhoi mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd wrth galon ein cynlluniau busnes**

**Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig wedi'u halinio**

8 DECENT WORK AND ECONOMIC GROWTH

17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS

**Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u halinio**

Cymru Lewyrchus

Cymru Gydnerth

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

### **ASTUDIAETH ACHOS –** ALINIO EIN STRWYTHUR CYFALAF I AMCANION ESG

Yn 2022, gwnaethom gymryd cam pwysig tuag at gysoni ein strwythur cyfalaf (sut rydym yn ariannu ein gweithrediadau a'n hasedau) ag amcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG) drwy ymrwymo i gyfleuster banc gwerth £125 miliwn sy'n gysylltiedig â metrigau perfformiad ESG. Mae cyflenwad parhaus y cyfleuster hwn yn gysylltiedig â'n perfformiad yn erbyn metrigau penodol sydd y tu hwnt i'r rhai a bennwyd gan ein rheoleiddiwr Ofgem. Mae'r targedau hyn yn cynnwys allyriadau nwyon naturiol o'n rhwydwaith dosbarthu nwy, dibynadwyedd gweithredol a gwasanaeth i gwsmeriaid. Byddwn yn parhau i werthuso cyfleoedd i alinio ein strwythur cyfalaf ymhellach ag amcanion ESG dros weddill y cyfnod rheoli rheoleiddiol hwn hyd at fis Mawrth 2026.

# Beth nesaf

Mae datblygu'r Strategaeth hon wedi ein helpu i lunio ein dealltwriaeth o'r hyn y mae cynaliadwyedd yn ei olygu i ni a'r hyn y mae'n ei olygu i'r gwasanaethau a gynigiwn i'r dyfodol. Mae'n nodi ein gweledigaeth i hwyluso datgarboneiddio yn y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, gan ddod yn fusnes mwy cynaliadwy yn ein gweithrediadau ein hunain.

## Sut bydd hyn yn parhau i esblygu

Nid dyma ddiwedd y stori ar gyfer ein Strategaeth Cynaliadwyedd o bell ffordd: byddwn yn ei hadolygu a'i diweddaru yn gyfnodol. Credwn fod y Strategaeth hon yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru wrth i bwysigrwydd pynciau cynaliadwyedd i gymdeithas esblygu ac wrth i'n dealltwriaeth ohonynt ddatblygu. Y gobaith yw y bydd y Strategaeth hon yn cychwyn sgyrsiau a phartneriaethau gyda sefydliadau eraill. Rydym o'r farn bod cydweithio yn allweddol i gyflawni ein huchelgeisiau cynaliadwyedd ehangach ni a'n cymdeithas.

Rydym yn bwriadu adeiladu ar yr ymgysylltu sydd wedi helpu i lunio'r Strategaeth hon. Byddwn yn ei defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'n cynlluniau ac i gynhyrchu adborth ac ymatebion a fydd yn ei chryfhau yn y dyfodol. Byddwn yn defnyddio sioeau teithiol a fforymau eraill i gofnodi safbwyntiau ein cydweithwyr ar y Strategaeth a'u rhoi ar waith. Byddwn yn parhau i ymgynghori â'n grwpiau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a byddwn yn cynnal perthynas waith agos â rhwydweithiau nwy eraill a'r rheoleiddiwr Ofgem i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau ar draws y sector a allai effeithio ar ein cynlluniau.

Os hoffech chi roi gwybod i ni beth yw eich barn am y Strategaeth hon neu unrhyw ran o'i chynnwys, cysylltwch â ni yn OurEnvironment@wwutilities.co.uk.

## Sut y byddwn yn ei ddefnyddio

Ein gwerthoedd yw'r hyn sy'n ein hysgogi i greu byd gwell heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn cadw ein gwerthoedd wrth galon popeth a wnawn wrth i'r Strategaeth hon barhau i ddatblygu. Byddwn yn monitro newidiadau yn y byd ehangach yn systematig ac yn ymgynghori'n rheolaidd â'n cwsmeriaid, ein partneriaid a'n harbenigwyr i sicrhau bod y Strategaeth yn parhau i ysgogi uchelgais ac ysbrydoli gweithredu. Rydym yn falch o'r Strategaeth hon a byddwn yn gweithio'n frwd fel tîm i ddod â hi'n fyw.



# Ein gwerthoedd

## Rydyn ni'n rhoi cwsmeriaid yn gyntaf

Rydym yn meithrin ymddiriedaeth drwy gynnig gwasanaeth rhagorol, gwrando a gweithredu ar yr hyn y mae ein cwsmeriaid yn ei ddweud wrthym.

## Rydyn ni'n ymfalchïo

Rydym yn cymryd perchnogaeth ac yn atebol am ein gwaith, gan fynd y tu hwnt i'r disgwyl i gael canlyniadau gwych.

## Rydyn ni'n gweithio fel tîm

Rydym yn meithrin perthynas â chydweithwyr a phartneriaid, yn rhannu arferion gorau ac yn annog sgyrsiau gonest ac agored.

## Rydyn ni'n egnïol

Rydym yn mynd ati i weithio gyda brwdfrydedd, gan herio ein hunain i wella drwy groesawu syniadau newydd ac atebion arloesol.



## Sut bydd hyn yn cefnogi cynllunio busnes

Mae ein Strategaeth yn ddogfen flaengar sy'n canolbwyntio ar y tymor hir, ond rhaid iddi hefyd fod yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio a gweithrediadau tymor byr a thymor canolig.

Bydd ein gweledigaeth hirdymor, fel y nodir yn y Strategaeth hon, yn gosod cyd-destun a chyfeiriad ein Cynllun Busnes ar gyfer y cyfnod rheoli prisiau nesaf ar ôl diwedd yr un presennol ym mis Mawrth 2026. Ynghyd ag ymgysylltu'n helaeth â'n rhanddeiliaid, bydd y Strategaeth hon yn cael ei defnyddio i bennu'r lefelau uchelgais y byddwn yn eu cyflwyno yn y Cynllun Busnes hwnnw.

## Sut byddwn yn adrodd ar ein cynnydd

I gefnogi cynllunio a gweithrediadau tymor byr, byddwn yn datblygu'r dangosyddion a ddefnyddiwn i fonitro ac adrodd ar gynnydd ar y targedau cynaliadwyedd a nodir yn y Strategaeth. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd yn erbyn y Strategaeth hon mewn Adroddiad Cynaliadwyedd blynyddol.

# Geirfa

**ALLYRIADAU CWMPAS 1**
Mae'r rhain yn allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol a ddaw o ffynonellau sy'n cael eu rheoli neu sy'n eiddo i'r sefydliad. Gallant gynnwys eitemau fel cerbydau cwmni a chyfleusterau cwmni.

**ALLYRIADAU CWMPAS 2**
Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â phrynu trydan.

**ALLYRIADAU CWMPAS 3**
Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol o ganlyniad i'r gweithgareddau o asedau nad ydynt yn eiddo i'r sefydliad sy'n adrodd nac yn cael eu rheoli ganddo, ond sy'n effeithio'n anuniongyrchol ar ei gadwyn gwerth. Gall y rhain gynnwys cymudo gweithwyr, nwyddau cyfalaf a gwastraff a gynhyrchir mewn gweithrediadau. Mae manylion categorïau unigol Cwmpas 3 ar gael yma.

**AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A LLYWODRAETHU (ESG)**
Fframwaith ar gyfer ystyried effaith busnes ar yr amgylchedd a chymdeithas, ac asesu ansawdd ei drefn lywodraethu.

**BIOAMRYWIAETH**
Dyma'r amrywiaeth o anifeiliaid a phlanhigion mewn ardal benodol. Gall hyn gynnwys rhywogaethau anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau. Mae pob un o'r rhywogaethau a'r organebau hyn yn gweithio gyda'i gilydd o fewn ecosystemau.

**BIOMETHAN**
Caiff ei greu drwy buro bio-nwy crai, a gynhyrchir drwy ddadelfennu deunydd organig fel anifeiliaid marw, planhigion a thail. Mae eisoes yn cael ei ddefnyddio yn lle cyfran o nwy naturiol a fyddai fel arall yn cael ei ddefnyddio yn y DU.

**CERBYDAU ALLYRIADAU ISEL IAWN**
Cerbydau sy'n defnyddio technolegau carbon isel, fel cerbydau trydan pur a cherbydau trydan celloedd tanwydd. Heddiw, mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn defnyddio trydan a hydrogen i ysgogi'r modur trydan, gyda batris yn gyffredin yn cael eu defnyddio fel dyfais storio ynni. Yn y rhan fwyaf o achosion, gellir gwefru'r rhain drwy eu plygio i mewn i bwynt gwefru neu brif gyflenwad, tra gellir ail-lenwi cerbydau hydrogen mewn gorsafoedd ail-lenwi tanwydd penodol.

**CYFALAF NATURIOL**
Mae'n cyfeirio at elfennau o'r amgylchedd sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau a gellir eu hystyried yn stoc sy'n darparu llif o fanteision i bobl ac i'r economi. Mae asedau cyfalaf yn cynnwys dŵr, coedwigoedd ac aer glân.

**DATGARBONEIDDIO**
Mae'n cyfeirio at yr holl fesurau (e.e. effeithlonrwydd ynni a mabwysiadu ffynonellau ynni adnewyddadwy) y mae busnes neu endid (e.e. llywodraeth neu sefydliad) yn ymrwymo iddynt er mwyn lleihau eu hôl troed carbon, yn enwedig drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r broses hon yn sicrhau bod busnesau neu endidau'n lleihau eu heffaith ar yr hinsawdd.

**HYDROGEN**
Mae'n nwy y gellir ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy, niwclear neu danwydd ffosil. Os caiff ei gynhyrchu gydag ynni adnewyddadwy neu gyda charbon wedi'i ddal, gall hydrogen helpu i ddatgarboneiddio amrywiaeth o sectorau lle mae'n anodd lleihau allyriadau, fel diwydiant trwm a llongau.

**METHAN**
Dyma brif gydran nwy naturiol. Mae'n nwy tŷ gwydr ac mae'n cynnwys carbon, sy'n cael ei ryddhau fel carbon deuocsid os caiff ei losgi.

**NEWID YN YR HINSAWDD**
Mae'n cyfeirio at y newidiadau tymor hir mewn tymheredd a phatrymau tywydd. Gall y newidiadau hyn fod yn naturiol, er enghraifft drwy amrywiadau yn y cylch solar. Ond ers y 1800au, mae gweithgareddau dynol wedi bod yn brif sbardun i newid yn yr hinsawdd, yn bennaf oherwydd llosgi tanwyddau ffosil fel glo, olew a nwy, sy'n arwain at lefel uwch na'r lefel naturiol o nwyon tŷ gwydr fel carbon deuocsid.

**NWYON TŶ GWYDR (GHG)**
Mae'r rhain yn nwyon yn atmosffer y ddaear sy'n dal gwres, gan achosi 'effaith nwyon tŷ gwydr', sy'n gyfrifol am newid yn yr hinsawdd a chynhesu byd-eang. Mae tymheredd byd-eang wedi cyflymu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf ac erbyn hyn mae ar ei uchaf ers i gofnodion ddechrau.

**RHWYDWEITHIAU NWY**
Mae rhwydweithiau nwy yn cyfeirio at berchnogion a gweithredwyr piblinellau Trosglwyddo a Dosbarthu ar draws Prydain Fawr. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn energynetworks.org/energy-networks-explained/

**SERO NET**
Dyma'r cydbwysedd rhwng tynnu nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer ar gyfradd gyfartal â'r rheini sy'n cael eu rhyddhau gan weithgarwch dynol. Pan nad yw'r hyn rydyn ni'n ei ychwanegu yn fwy na'r hyn rydyn ni'n ei dynnu, rydyn ni'n cyrraedd sero net.

**TRAWSNEWIDIAD YNNI**
Dyma'r broses o newid dibyniaeth ar danwydd ffosil i ffynonellau ynni carbon isel, fel ynni adnewyddadwy o wynt a solar neu hydrogen.

## Nodau Datblygu Cynaliadwy

Yn 2015, cytunodd holl Aelod-Wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig i 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig fel galwad frys am weithredu. Maent yn darparu'r egwyddorion arweiniol i sicrhau bod camau gweithredu'n cyd-fynd â dyfodol cynaliadwy. Yn ein sefydliad, maen nhw hefyd yn rhoi arweiniad i ni gyflawni ein blaenoriaethau busnes – maen nhw'n cael eu hymgorffori yn ein Cynllun Busnes 2021-26 drwyddo draw – gan dynnu sylw at sut mae ein gweithgarwch yn helpu i fynd i'r afael â phynciau cynaliadwyedd allweddol fel newid yn yr hinsawdd ac ymdrechu i warchod cefnforoedd a fforestydd y Ddaear.


Fel sefydliad, rydym yn cefnogi ac yn eiriol dros bob un o'r 17 Nod Datblygu Cynaliadwy. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod rhai yn cyd-fynd orau â'n gweithrediadau busnes craidd ac felly yn ein Cynllun Busnes rydym wedi nodi saith Nod Datblygu Cynaliadwy sy'n flaenoriaeth. Yn y Strategaeth hon drwyddi draw, rydym yn amlinellu sut mae ein Blaenoriaethau Busnes a'n targedau yn y meysydd hyn yn cyd-fynd â'n Nodau Datblygu Cynaliadwy sy'n flaenoriaeth. Bydd y fframwaith cynaliadwyedd hwn, sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol, yn helpu i wneud yn siŵr ein bod yn ystyried amrywiaeth lawn o faterion cynaliadwyedd yn ein penderfyniadau ac yn cefnogi ein dull o gyfathrebu ynghylch cynaliadwyedd.

**Mae ein Strategaeth Ynni Cynaliadwy yn cyd-fynd â'n Nodau Datblygu Cynaliadwy blaenoriaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am amcanion pob nod isod:**


| NDC Y CU | Esboniad | Ein Targedau |
|---|---|---|
|  Ynni Fforddiadwy a Glân | Sicrhau mynediad at ynni fforddiadwy, dibynadwy, cynaliadwy a modern i bawb | Rhoi cwsmeriaid a chymunedau wrth galon popeth a wnawn, gan ddarparu gwasanaethau cynhwysol i bawb.<br>Cefnogi cwsmeriaid drwy weithio gyda phartneriaid a gwella sgiliau peirianwyr i wneud gwaith atgyweirio sylfaenol ar bibellau a boeleri, yn ogystal â chynnig gwasanaethau ychwanegol.<br>Defnyddio data i ganfod a thargedu cymorth i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus ar draws ein cymunedau.<br>Manteisio i'r eithaf ar werth cymdeithasol ychwanegol y cymorth a ddarparwn yn uwch na'r gofynion disgwyliedig ac adrodd ar hynny.<br>Datblygu ein cydweithwyr a gwybodaeth ar gyfer cwsmeriaid i'w grymuso a'u cefnogi i ddod yn rhan o'r broses trawsnewid ynni yn y DU.<br>Creu mwy o dimau cymorth i gwsmeriaid lleol, sy'n cynrychioli cymunedau, er mwyn trawsnewid y system ynni ar gyfer sero net.<br>Parhau i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill i ddeall eu hanghenion.<br>Parhau i werthuso pob penderfyniad buddsoddi yn drylwyr, gan ystyried blaenoriaethau ein rhanddeiliaid.<br>Parhau i gynyddu ein hincwm nad yw'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd (lleihau biliau defnyddwyr) a datblygu ein hunain fel cyflenwr o ddewis o ansawdd uchel.<br>Nodi a, lle bo hynny'n addas, buddsoddi mewn cyfleoedd sy'n cynhyrchu ffrydiau refeniw ychwanegol yn y dyfodol, gan gynnwys o'n hasedau tir a nwy.<br>Dewis opsiynau allyriadau isel ac isel iawn ar gyfer ein fflyd o gerbydau lle mae amodau a marchnadoedd yn caniatáu.<br>Buddsoddi o leiaf £13 miliwn mewn prosiectau arloesi a datgarboneiddio cam cynnar ar draws ein gweithrediadau.<br>Cyflawni allyriadau gweithredol sero net (Cwmpas 1 a 2) ac allyriadau'r gadwyn gyflenwi (Cwmpas 3 oddi wrth y cwsmer).<br>Paratoi i dderbyn hyd at 20% o hydrogen cyfunol erbyn 2026.<br>Paratoi ar gyfer hydrogen 100% ledled ardaloedd ein rhwydwaith sydd fwyaf tebygol o drosi erbyn 2035 a ledled y rhwydwaith erbyn 2040 fan bellaf. |

| NDC Y CU | Esboniad | Ein Targedau |
|---|---|---|
| **Gwaith Teilwng a Thwf Economaidd** | Hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy, cynhwysol a chynaliadwy, cyflogaeth lawn a chynhyrchiol a gwaith teilwng i bawb | Cynnwys ffactorau dynol a dadansoddi gwallau'n effeithiol yn ein dull o reoli risg a datblygu prosesau.<br>Adolygu a diweddaru ein proffil risg (cofrestrau) yn gyson er mwyn i ni adnabod risgiau newydd a chadw ffocws ar y peryglon hynny sydd fwyaf tebygol o achosi niwed i fywyd neu eiddo.<br>Parhau i ddarparu rhaglen hyfforddi orfodol gynhwysfawr yn seiliedig ar fatricsau cymhwysedd hanfodol, gan gynnwys trawsnewid y system ynni i nwyon fel hydrogen.<br>Gwneud yn siŵr bod ein diwylliant yn ddiogel, yn gefnogol, yn ddifyr ac yn ysgogol ac yn galluogi ymdeimlad o berthyn, datblygiad a pherfformiad.<br>Defnyddio data i ganfod a thargedu cymorth i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus ar draws ein cymunedau.<br>Manteisio i'r eithaf ar werth cymdeithasol ychwanegol y cymorth a ddarparwn yn uwch na'r gofynion disgwyliedig ac adrodd ar hynny.<br>Parhau i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill i ddeall eu hanghenion.<br>Parhau i werthuso pob penderfyniad buddsoddi yn drylwyr, gan ystyried blaenoriaethau ein rhanddeiliaid.<br>Parhau i gynyddu ein hincwm nad yw'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd (lleihau biliau defnyddwyr) a datblygu ein hunain fel cyflenwr o ddewis o ansawdd uchel.<br>Nodi a, lle bo hynny'n addas, buddsoddi mewn cyfleoedd sy'n cynhyrchu ffrydiau refeniw ychwanegol yn y dyfodol, gan gynnwys o'n hasedau tir a nwy.<br>Parhau i werthuso'r potensial ar gyfer alinio ein strwythur cyfalaf ymhellach â'n hamcanion ESG.<br>Buddsoddi mewn o leiaf dri chlwstwr diwydiannol i gefnogi'r diwydiant i symud i sero net a datblygu cynlluniau cyflwyno ehangach ar gyfer hydrogen.<br>Cefnogi ymdrechion datgarboneiddio lleol yn rhagweithiol ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu gan ddefnyddio ein gallu i fodelu systemau cyfan i gefnogi o leiaf 30 o Gynlluniau Ynni Ardal Leol neu weithgarwch tebyg.<br>Cynnal ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl a chyflawni ail-achrediad yn 2023.<br>Gwneud yn siŵr bod cydweithwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu ein rhwydwaith yn ddiogel.<br>Creu cynllun cadarn ar gyfer sgiliau hydrogen ac adnoddau talent ar gyfer y sector drwy gydweithio â'r rhwydweithiau dosbarthu nwy eraill a'r cyngor sgiliau ar gyfer ein sector.<br>Cyrraedd Safon y Cyflogwyr Cynhwysol yn 2025.<br>Datblygu cynllun i wella cynhwysiant drwy gefnogi llwybrau at waith boddhaus.<br>Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf drwy addysgu ein cydweithwyr a gweithio gydag ysgolion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig ein rhwydwaith i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch nwy a chyfleoedd gyrfa. |

| NDC Y CU | Esboniad | Ein Targedau |
| --- | --- | --- |
| **Diwydiant, Arloesi a Seilwaith** | Adeiladu seilwaith cydnerth, hyrwyddo diwydiannu cynhwysol a chynaliadwy a meithrin arloesedd | Uwchraddio ein hasedau, ein systemau a’n data yn rhagweithiol ar gyfer y dyfodol a diogelu rhag risgiau seiberddiogelwch a risgiau ffisegol.<br>Parhau i weithredu gwasanaeth brys 24/7 365 diwrnod y flwyddyn, gan ymateb i bob galwad gan y cyhoedd o fewn awr ar gyfer sefyllfa nad yw’n cael ei rheoli, a dwy awr ar gyfer sefyllfa gaiff ei rheoli.<br>Disodli prif bibelli a gwasanaethau metelig sy’n heneiddio â deunyddiau pibellau modern sy’n fwy diogel ac yn fwy cyfeillgar i’r amgylchedd.<br>Cynnal gweithlu ymateb brys hynod fedrus a phroffesiynol a sicrhau bod cydweithwyr wedi’u hyfforddi’n briodol ar gyfer trawsnewid y system ynni.<br>Cynnwys ffactorau dynol a dadansoddi gwallau’n effeithiol yn ein dull o reoli risg a datblygu prosesau.<br>Adolygu a diweddaru ein proffil risg (cofrestrau) yn gyson er mwyn i ni adnabod risgiau newydd a chadw ffocws ar y peryglon hynny sydd fwyaf tebygol o achosi niwed i fywyd neu eiddo.<br>Parhau i ddarparu rhaglen hyfforddi orfodol gynhwysfawr yn seiliedig ar fatricsau cymhwysedd hanfodol, gan gynnwys trawsnewid y system ynni i nwyon fel hydrogen.<br>Dewis opsiynau allyriadau isel ac isel iawn ar gyfer ein fflyd o gerbydau lle mae amodau a marchnadoedd yn caniatáu.<br>Buddsoddi o leiaf £13 miliwn mewn prosiectau arloesi a datgarboneiddio cam cynnar ar draws ein gweithrediadau.<br>Cefnogi ymdrechion datgarboneiddio lleol yn rhagweithiol ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu gan ddefnyddio ein gallu i fodelu systemau cyfan i gefnogi o leiaf 30 o Gynlluniau Ynni Ardal Leol neu weithgarwch tebyg.<br>Mapio ymwybyddiaeth cyflenwyr o bynciau cynaliadwyedd. |



| NDC Y CU | Esboniad | Ein Targedau |
| --- | --- | --- |
| Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol | Sicrhau patrymau defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy | Uwchraddio ein hasedau, ein systemau a'n data yn rhagweithiol ar gyfer y dyfodol a diogelu rhag risgiau seiberddiogelwch a risgiau ffisegol.<br>Parhau i weithredu gwasanaeth brys 24/7 365 diwrnod y flwyddyn, gan ymateb i bob galwad gan y cyhoedd o fewn awr ar gyfer sefyllfa nad yw'n cael ei rheoli, a dwy awr ar gyfer sefyllfa gaiff ei rheoli.<br>Disodli prif bibelli a gwasanaethau metelig sy'n heneiddio â deunyddiau pibellau modern sy'n fwy diogel ac yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.<br>Cynnal gweithlu ymateb brys hynod fedrus a phroffesiynol a sicrhau bod cydweithwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ar gyfer trawsnewid y system ynni.<br>Rhoi cwsmeriaid a chymunedau wrth galon popeth a wnawn, gan ddarparu gwasanaethau cynhwysol i bawb.<br>Cefnogi cwsmeriaid drwy weithio gyda phartneriaid a gwella sgiliau peirianwyr i wneud gwaith atgyweirio sylfaenol ar bibellau a boeleri, yn ogystal â chynnig gwasanaethau ychwanegol.<br>Datblygu ein cydweithwyr a gwybodaeth ar gyfer cwsmeriaid i'w grymuso a'u cefnogi i ddod yn rhan o'r broses trawsnewid ynni yn y DU.<br>Creu mwy o dimau cymorth i gwsmeriaid lleol, sy'n cynrychioli cymunedau, er mwyn trawsnewid y system ynni ar gyfer sero net.<br>Dewis opsiynau allyriadau isel ac isel iawn ar gyfer ein fflyd o gerbydau lle mae amodau a marchnadoedd yn caniatáu.<br>Buddsoddi o leiaf £13 miliwn mewn prosiectau arloesi a datgarboneiddio cam cynnar ar draws ein gweithrediadau.<br>Cyflawni allyriadau gweithredol sero net (Cwmpas 1 a 2) ac allyriadau'r gadwyn gyflenwi (Cwmpas 3 oddi wrth y cwsmer).<br>Paratoi i dderbyn hyd at 20% o hydrogen cyfunol erbyn 2026.<br>Paratoi ar gyfer hydrogen 100% ledled ardaloedd ein rhwydwaith sydd fwyaf tebygol o drosi erbyn 2035 a ledled y rhwydwaith erbyn 2040 fan bellaf.<br>Anfon dim gwastraff diangen i safleoedd tirlenwi erbyn 2035 a dod yn gwmni diwastraff erbyn 2050. |



| NDC Y CU | Esboniad | Ein Targedau |
| --- | --- | --- |
| 13 CLIMATE ACTION **Gweithredu ar Newid yn yr Hinsawdd** | Cymryd camau brys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau | Datblygu ein cydweithwyr a gwybodaeth ar gyfer cwsmeriaid i'w grymuso a'u cefnogi i ddod yn rhan o'r broses trawsnewid ynni yn y DU.<br>Creu mwy o dimau cymorth i gwsmeriaid lleol, sy'n cynrychioli cymunedau, er mwyn trawsnewid y system ynni ar gyfer sero net.<br>Dewis opsiynau allyriadau isel ac isel iawn ar gyfer ein fflyd o gerbydau lle mae amodau a marchnadoedd yn caniatáu.<br>Buddsoddi o leiaf £13 miliwn mewn prosiectau arloesi a datgarboneiddio cam cynnar ar draws ein gweithrediadau.<br>Cyflawni allyriadau gweithredol sero net (Cwmpas 1 a 2) ac allyriadau'r gadwyn gyflenwi (Cwmpas 3 oddi wrth y cwsmer).<br>Paratoi i dderbyn hyd at 20% o hydrogen cyfunol erbyn 2026.<br>Paratoi ar gyfer hydrogen 100% ledled ardaloedd ein rhwydwaith sydd fwyaf tebygol o drosi erbyn 2035 a ledled y rhwydwaith erbyn 2040 fan bellaf.<br>Buddsoddi mewn o leiaf dri chlwstwr diwydiannol i gefnogi'r diwydiant i symud i sero net a datblygu cynlluniau cyflwyno ehangach ar gyfer hydrogen.<br>Cefnogi ymdrechion datgarboneiddio lleol yn rhagweithiol ar gyfer y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu gan ddefnyddio ein gallu i fodelu systemau cyfan i gefnogi o leiaf 30 o Gynlluniau Ynni Ardal Leol neu weithgarwch tebyg.<br>Mapio ymwybyddiaeth cyflenwyr o bynciau cynaliadwyedd.<br>Gweithio gyda phartneriaid ehangach yn y diwydiant ynni i hyrwyddo dealltwriaeth a dewis defnyddwyr o ran atebion gwresogi carbon isel. |

| NDC Y CU | Esboniad | Ein Targedau |
| --- | --- | --- |
| 15 LIFE ON LAND **Bywyd ar y Tir** | Diogelu, adfer a hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ecosystemau daearol, rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy, mynd i'r afael ag ymlediad diffeithdir, atal a gwrthdroi dirywiad tir ac atal colli bioamrywiaeth | Cefnogi'r amgylchedd naturiol i ffynnu ledled ein tir ein hunain ac yn ein prosiectau drwy weithio gyda chymunedau a phartneriaid. Byddwn yn cyfeirio ein hadnoddau ein hunain yn ogystal â denu cyllid i sicrhau manteision net bioamrywiaeth. |

| NDC Y CU | Esboniad | Ein Targedau |
|---|---|---|
| 17 PARTNERSHIPS FOR THE GOALS **Gweithio mewn Partneriaethau i Gyflawni'r Nodau** | Cryfhau'r dull gweithredu ac adfywio'r Bartneriaeth Fyd-eang ar gyfer Datblygu Cynaliadwy | Rhoi cwsmeriaid a chymunedau wrth galon popeth a wnawn, gan ddarparu gwasanaethau cynhwysol i bawb.<br>Cefnogi cwsmeriaid drwy weithio gyda phartneriaid a gwella sgiliau peirianwyr i wneud gwaith atgyweirio sylfaenol ar bibellau a boeleri, yn ogystal â chynnig gwasanaethau ychwanegol.<br>Defnyddio data i ganfod a thargedu cymorth i gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus ar draws ein cymunedau.<br>Manteisio i'r eithaf ar werth cymdeithasol ychwanegol y cymorth a ddarparwn yn uwch na'r gofynion disgwyliedig ac adrodd ar hynny.<br>Parhau i werthuso'r potensial ar gyfer alinio ein strwythur cyfalaf ymhellach â'n hamcanion ESG.<br>Cynnal ein hachrediad Buddsoddwyr mewn Pobl a chyflawni ail-achrediad yn 2023.<br>Gwneud yn siŵr bod cydweithwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddarparu ein rhwydwaith yn ddiogel.<br>Creu cynllun cadarn ar gyfer sgiliau hydrogen ac adnoddau talent ar gyfer y sector drwy gydweithio â'r rhwydweithiau dosbarthu nwy eraill a'r cyngor sgiliau ar gyfer ein sector.<br>Mapio ymwybyddiaeth cyflenwyr o bynciau cynaliadwyedd.<br>Gweithio gyda phartneriaid ehangach yn y diwydiant ynni i hyrwyddo dealltwriaeth a dewis defnyddwyr o ran atebion gwresogi carbon isel. |



## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein helpu i weithio gyda'n gilydd i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant. Mae'n berthnasol i Gymru, ond mae dull tebyg yn cael ei ystyried yn Lloegr ac mae'r egwyddorion yn berthnasol i bob man rydym yn gweithredu. Mae'n cynnig fframwaith i ddeall yr effaith y gallwn ei chael ar genedlaethau heddiw ac yfory.

Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith ar gyfer mynd ar drywydd saith 'Nod Lles'. Mae cynnydd tuag at y nodau'n cael ei fonitro gan ddefnyddio 50 o 'Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol' ac wyth 'Carreg Filltir Genedlaethol'. Byddwn yn edrych ar sut gallwn gysoni ein hadroddiadau cynaliadwyedd â'r fframwaith hwn er mwyn dangos yn well ein cyfraniadau i'n partneriaid ac i Lywodraeth Cymru.

**Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd yn cyd-fynd â'r nodau Llesiant canlynol ar gyfer Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am amcanion pob nod isod:**

| Nod | Esboniad | Meysydd targed |
|---|---|---|
| Cymru Lewyrchus | Cymdeithas carbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac sydd felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd) ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus sydd wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth | Hyrwyddo diogelwch ein gweithlu.<br>Gofalu am les ac iechyd ein cydweithwyr.<br>Darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.<br>Cefnogi ein cymunedau wrth iddynt newid i ynni carbon isel.<br>Cadw buddiannau cwsmeriaid wrth galon pob penderfyniad buddsoddi.<br>Cysoni ein strwythur cyfalaf â'n hamcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG).<br>Arloesi a dewis technolegau mwy gwyrdd.<br>Gweithio gyda'n cwsmeriaid a'u cefnogi yn ystod y cyfnod pontio i sero net.<br>Adeiladu tîm medrus, cydnerth sy'n barod ar gyfer hydrogen.<br>Gwella amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ein tîm.<br>Ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi a phartneriaid yn y diwydiant ar gynaliadwyedd. |

| Nod | Esboniad | Meysydd targed |
|---|---|---|
| Cymru Gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid | Darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.<br>Cefnogi cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus.<br>Cysoni ein strwythur cyfalaf â'n hamcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG).<br>Paratoi ein hasedau a'n gweithrediadau ar gyfer nwyon carbon isel.<br>Gweithio gyda'n cwsmeriaid a'u cefnogi yn ystod y cyfnod pontio i sero net.<br>Gwella iechyd ein hamgylchedd.<br>Adeiladu tîm medrus, cydnerth sy'n barod ar gyfer hydrogen.<br>Ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi a phartneriaid yn y diwydiant ar gynaliadwyedd. |

| Nod | Esboniad | Meysydd targed |
| --- | --- | --- |
| **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang | Cefnogi ein cymunedau wrth iddynt newid i ynni carbon isel.<br>Cysoni ein strwythur cyfalaf â'n hamcanion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ESG).<br>Arloesi a dewis technolegau mwy gwyrdd.<br>Paratoi ein hasedau a'n gweithrediadau ar gyfer nwyon carbon isel.<br>Gweithio gyda'n cwsmeriaid a'u cefnogi yn ystod y cyfnod pontio i sero net.<br>Gwella iechyd ein hamgylchedd.<br>Ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi a phartneriaid yn y diwydiant ar gynaliadwyedd. |

| Nod | Esboniad | Meysydd targed |
| --- | --- | --- |
| **Cymru sy'n Fwy Cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol) | Cefnogi cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus.<br>Gwella amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ein tîm. |

| Nod | Esboniad | Meysydd targed |
| --- | --- | --- |
| **Cymru Iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol | Gofalu am les ac iechyd ein cydweithwyr.<br>Cefnogi cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus.<br>Adeiladu tîm medrus, cydnerth sy'n barod ar gyfer hydrogen.<br>Gwella amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ein tîm. |

| Nod | Esboniad | Meysydd targed |
|---|---|---|
| **Cymru o Gymunedau Cydlynol** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da | Cynnal diogelwch ein hasedau i gadw cwsmeriaid a chymunedau'n ddiogel.<br>Darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.<br>Cefnogi cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus.<br>Cefnogi ein cymunedau wrth iddynt newid i ynni carbon isel.<br>Cadw buddiannau cwsmeriaid wrth galon pob penderfyniad buddsoddi.<br>Gwella amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant ein tîm.<br>Ymgysylltu â'n cadwyn gyflenwi a phartneriaid yn y diwydiant ar gynaliadwyedd. |

| Nod | Esboniad | Meysydd targed |
|---|---|---|
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, ac mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon | Darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.<br>Cefnogi ein cymunedau wrth iddynt newid i ynni carbon isel.<br>Cadw buddiannau cwsmeriaid wrth galon pob penderfyniad buddsoddi. |



# Rhestr cyfeiriadau

| Ffynhonnell | Disgrifiad |
|---|---|
| ENA Gas Goes Green – Ymrwymiadau Cynaliadwyedd 2021 | Adroddiad ar ymrwymiad rhwydweithiau nwy Prydain Fawr i Nodau Datblygu Cynaliadwy |
| Gweledigaeth Hydrogen ar gyfer y DU ENA | Gweledigaeth rhwydweithiau a rennir ar gyfer rôl hydrogen yn y system ynni |
| Siarter y Gadwyn Gyflenwi | Mae'n nodi ein hagwedd at gaffael cynaliadwy |
| Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol WWU 2021-22 | Cyhoeddwyd yn flynyddol ac mae'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddata amgylcheddol a chynnydd tuag at dargedau ac ymrwymiadau allweddol |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth WWU 2022 | Adroddiad ar ein gwaith i warchod a gwella bioamrywiaeth |
| Siarter Gwasanaeth i Gwsmeriaid WWU | Mae'n nodi ein hymrwymiadau i wasanaeth i gwsmeriaid a sut gall cwsmeriaid gysylltu â Wales and West Utilities |
| Adroddiad ar Gyflogau'r Rhywiau WWU | Adroddiad ar ein perfformiad mewn perthynas â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau |
| Adroddiad Arloesi WWU | Cyhoeddwyd yn flynyddol ac mae'n darparu gwybodaeth am brosiectau arloesol sy'n ceisio cefnogi cwsmeriaid mewn sefyllfaoedd bregus a chyflawni'r newid i'r system ynni |